

Atal Gwaharddiad

Deall Atal Gwaharddiad

Nid yw atal gwaharddiad yn ymwneud â gostwng disgwyliadau neu esgusodi ymddygiad. Mae'n ymwneud â deall yr elfennau sylfaenol sy'n ysgogi ymddygiad ac ymateb mewn ffyrdd sy'n atal gwaethygiad, yn gwella rheoleiddiad ac yn cynnal ymdeimlad o berthyn.



Yn ystadegol, mae dysgwyr niwrowahanol yn fwy tebygol o gael eu gwahardd. Yn aml, mae hyn yn gysylltiedig ag anghenion heb eu diwallu, mewn meysydd megis:

- **Prosesu Synhwyrdd**
- **Gweithrediad Goruchwyliol**
- **Cyfathrebu Cymdeithasol**
- **Cyflymder Prosesu**
- **Gorbryder a Thrawma**
- **Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiwn (EBSA)**

Mae ymddygiadau sy'n ymddangos yn heriol neu aflonyddgar yn aml yn arwydd o anhwylder, yn hytrach na herio bwriadol.

Pam fod Atal yn Bwysig?

- Collir fwy o reolaeth pan fydd dysgwyr yn gweithredu y tu allan i'w ffenestr oddefgarwch.
- Gall gofynion gweithrediad goruchwyliol, gormodedd synhwyrdd a gorbryder waethygu'n gyflym mewn amgylchedd prysur ysgol.
- Gall cosbau mynych, heb addasu'r ddarpariaeth, achosi mwy o gywilydd, datgysylltiad ac osgoi mynd i'r ysgol.
- Mae cysylltiad cryf rhwng absenoldeb a gwaharddiad parhaus, â chanlyniadau hirdymor ddim cystal.


Mae atal yn rhagweithiol, yn berthynol ac yn strwythuredig.

Atal Gwaharddiad

Strategaethau Ymarferol ar gyfer Staff Addysgu

Deall a Chynllunio

- Defnyddiwch y cylch Asesu–Cynllunio–Gwneud–Adolygu i nodi patrymau, sbardunau ac anghenion heb eu diwallu.
- Cwblhewch asesiadau risg unigol sy'n ystyried sbardunau synhwyrdd, lefelau gorbryder a dangosyddion dirywiad.
- Lluniwch gynlluniau cefnogi ymddygiad cyson ymhlith staff, er mwyn lleihau natur anrhagweladwy.
- Sicrhewch fod cynlluniau'n ymatebol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn hytrach na'u bod yn ddogfennau statig.



Sylwi ar Golli Rheolaeth

Dylech wahaniaethu rhwng:

- Ymddygiad heriol sy'n bygwth diogelwch
- Ymddygiad aflonyddgar sy'n tarfu ar ddysgu
- Colli rheolaeth a ysgogir gan fewnbwn synhwyrdd neu emosiynau llethol

Yn achos dysgwyr niwrowahanol, mae colli rheolaeth yn aml yn gysylltiedig â:

- Gofynion prosesu yn fwy na chapasiti
- Camddealltwriaeth neu ddryswch cymdeithasol
- Gorbryder o ran disgwyliadau neu ymdeimlad o golli rheolaeth
- Trosglwyddo a phwyntiau newid allweddol

Mae ymyrraeth gynnar yn llawer mwy effeithiol na chanlyniad ymatebol.

Ymarfer Perthynol

- Mae perthnasoedd cadarn yn lleihau dirywiad
- Dylech flaenoriaethu cysylltu cyn cywiro
- Dylech feithrin rhagweladwyedd a diogelwch seicolegol
- Cefnogwch ymdeimlad o berthyn o fewn cymuned yr ystafell ddosbarth
- Defnyddiwch ymagweddau adferol i adfer perthnasoedd yn dilyn digwyddiadau

Mae dysgwyr yn fwy tebygol o reoleiddio mewn amgylchedd lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu deall.

Atal Gwaharddiad



Ymagweddau Ystyriol o Drawma a Gorbryder

Gall rhai dysgwyr ddangos ymddygiad o orbryder sylfaenol cynyddol neu hanes o drawma.

- Defnyddiwch iaith anuniongyrchol lle bo hynny'n briodol er mwyn lleihau bygythiad ymddangosiadol.
- Cynhigiwch ddewis o fewn strwythur er mwyn cynyddu ymreolaeth.
- Peidiwch â chywiro cymaint yn gyhoeddus, lle mae hynny'n bosibl.
- Darparwch ardaloedd ar gyfer rheoleiddio neu strategaethau ymadael cyn i bethau waethygu.

Yn achos dysgwyr sydd â phroffiliau osgoi galw, gall hiwmor, hyblygrwydd, newydd-deb a llai o ofnion uniongyrchol atal cylchoedd o wrthdaro.

Addasiadau Amgylcheddol ac Addysgu

Gall addasiadau bychain leihau perygl o waharddiad yn sylweddol:

- Dylech ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer prosesu cyn ailadrodd cyfarwyddiadau.
- Dylech addasu cyflymder, swmp a chymhlethdod tasgau.
- Dylech gynnal cychwyn tasgau er mwyn lleihau'r llwyth gwaith gweithredol.
- Ymgorfforwch ddiddordebau dysgwyr, er mwyn cynyddu ymgysylltiad.
- Darparwch egwylliau symud neu gyfleoedd rheoli synhwyrdd yn rhagweithiol.

Mae cysondeb yn bwysig, yn ogystal â hyblygrwydd. Gall defnyddio dull "anghyson cyson" brofi'n ddefnyddiol i ddysgwyr sy'n ymateb i newydd-deb.

Ar ôl Digwyddiad

Dylai gwaith ar ôl digwyddiad ganolbwyntio ar ddysgu ac adfer yn hytrach na beio.

- Cynhaliwch sesiynau ôl-drafod gyda staff, er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu gweithredu'n gyson.
- Cefnogwch fyfyrion pan fydd synhwyrddau'r dysgwr wedi'u rheoli.
- Dylech adolygu a wnaeth anghenion heb eu diwallu gyfrannu at y dirywiad.
- Addaswch y ddarpariaeth yn ôl yr angen.

Y nod yw lleihau'r siawns y bydd yn digwydd eto, yn hytrach na beio.



Atal Gwaharddiad

Perthyn fel Atal

Mae llai o risg o waharddiad pan fydd dysgwr yn:

- Teimlo'n hysbys a'u bod yn cael eu deall.
- Profi llwyddiant mewn camau dichonadwy.
- Gyda threfn ragweladwy a hyblygrwydd priodol.
- Gweld eu proffil niwrowahaol yn cael ei gydnabod fel gwahaniaeth, nid diffyg.

Mae darpariaeth gyffredinol sy'n cefnogi gweithrediad goruchwyliol a rheoleiddio o fantais i bob dysgwyr, nid y rhai sydd mewn perygl yn unig.

